

Adroddiad	Swyddogion Adolygu Annibynnol Uned Diogelu ac Ansawdd
Ar gyfer	Panel Rhiantu Corfforaethol – Mawrth 2022
Awduron	Hayley Ennis, Dawn Owen, Clare Owen, Huw Owen a Nia Hardaker. Swyddogion Adolygu Annibynnol

1. Pwrpas a Chyd-destun

Cyflwynir yr adroddiad hwn fel dull o gyflawni dyletswydd statudol y Swyddogion Adolygu Annibynnol i *“fonitro gweithgarwch yr awdurdod lleol yn rhinwedd ei swydd fel rhiant corfforaethol da”*. (Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer Rhan 6, Paragraff 371).

Mae'r adroddiad hwn yn mesur cynnydd yn erbyn argymhellion y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis Mawrth 2018.

2. Argymhellion a Chynnydd

Amcan Gwella (a nodwyd ym mis Mawrth 2018):	Argymhellion (a nodwyd ym mis Mawrth 2018):	Cynnydd
Ansawdd Plant asesiadau sy'n Derbyn Gofal	Rhaid i bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal fod ag asesiad cyfredol o'u hanghenion ar ffeil – gan gynnwys portread ysgrifenedig o bob plentyn: Dylid eu diweddarau'n rheolaidd h.y. o leiaf unwaith y flwyddyn. Cynhelir asesiadau yn unol â Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n asesiad o anghenion gofal a chymorth plentyn.	Rydym yn croesawu'r cyfarwyddyd a roddwyd gan reolwyr bod angen diweddarau'r asesiad ar gyfer pob plentyn erbyn diwedd mis Ionawr 2020. At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir bod gan blentyn asesiad cyfredol os cynhaliwyd yr asesiad yn 2021 neu 2022. Edrychom ar sampl o 45 achos: ac roedd gan 26 plentyn (58%) asesiad cyfredol ond nid oedd gan 19 (42%) asesiad cyfredol. Mae hyn yn well na'r hyn a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae heriau o ran sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd e.e. roedd y person ifanc wedi gwrthod ymwneud â'r

		<p>gweithiwr cymdeithasol yn y broses asesu.</p> <p>Arfarnwyd deg Asesiad Rhan 3 yn fanwl wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd dau enghraifft o asesiadau o ansawdd ragorol: y gellid eu defnyddio fel enghreifftiau i gynorthwyo ymarferwyr i wella'r asesiadau hynny lle'r oedd yr ansawdd yn fwy anghyson.</p> <p>Canfuom feysydd o arfer da</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ darparu dealltwriaeth dda o hanes a phrofiad bywyd plentyn ❖ gwybodaeth fanwl am anghenion datblygu craidd. ❖ ymgorffori ymchwil yn yr asesiad gan ddarparu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth <p>Meysydd i'w datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ gwella'r dadansoddiad ❖ ffocws ar y plentyn a'r canlyniadau personol a ddymunir ar eu cyfer
<p>Mae Cynlluniau Gofal a Chymorth ar waith – sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir, ymyriadau i fodloni'r canlyniadau hynny, ac amserlenni. Adolygu a monitro</p>	<p>Mae'n rhaid rhoi Cynlluniau Gofal a Chymorth ar waith ar gyfer pob plentyn.</p>	<p>Mae angen paratoi a darparu gwybodaeth yn ofalus ar gyfer Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Cymorth. Adolygwyd y broses hon i sicrhau gwell cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a safonau ymarfer. Mewn sampl o 42 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal darparwyd adroddiadau ymlaen llaw mewn 36 Adolygiad (86%).</p>

<p>trylwyr o'r gweithredu a'r gwahaniaeth a wnaed</p>		<p>Mae hyn yn parhau i fod yn welliant sylweddol o gymharu â'r sefyllfa yn y gorffennol.</p> <p>Er mwyn adeiladu ar hyn, rydym yn argymhell bod y Gwasanaeth yn canolbwyntio yn awr ar y camau gweithredu yn dilyn adolygiad. Mae'n arfer da diwygio cynlluniau gofal a chymorth o fewn 25 diwrnod i gynnal yr adolygiad. Mae hwn yn faes sy'n parhau i achosi pryder ac rydym yn bwriadu edrych ar sampl fawr ar gyfer ein hadroddiad nesaf.</p>
<p>Adolygu a monitro trylwyr o'r gweithredu a'r gwahaniaeth a wnaed.</p>	<p>Rhaid gwella'r gwaith paratoi ar gyfer adolygiadau a darparu gwybodaeth sy'n caniatáu craffu ar gynllun y plentyn a'i ddatblygu.</p>	<p>Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r templed diwygiedig ar gyfer y Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a'r gwelliant wrth baratoi ar gyfer adolygiadau.</p>
<p>Ansawdd a chysondeb cadw cofnodion.</p>	<p>Cofnodi ymweliadau statudol – i ddangos dealltwriaeth o'r gofynion, a dylai'r plentyn a'r gofalwr lofnodi'r cofnod hefyd.</p>	<p>Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau o'r farn bod cadw cofnodion achos wedi bod yn gyson dda ers peth amser bellach. O'r herwydd, nid yw hyn wedi cael ei fonitro'n benodol ar gyfer yr adroddiad hwn. Nodir bod mecanwaith mewnol ar waith i sicrhau bod y gwaith cofnodi yn amserol.</p>
<p>Ffocws penodol ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal – Cwblhau'r achosion hynny lle mae angen dirymu'r Gorchmynion: a</p>	<p>Cynnydd o ran cynlluniau sefydlogrwydd ar gyfer nifer o blant lle byddai trefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn well canlyniad.</p>	<p>Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i fynychu Cyfarfodydd Cynllunio Sefydlogrwydd. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn teimlo bod hyn yn arwain at rannu gwybodaeth mewn modd amserol, i hwyluso'r broses graffu ac osgoi cynlluniau ar gyfer plant rhag llithro.</p>

<p>nodi pob achos lle y gallai Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yn briodol a chanolbwyntio ar ddatblygu'r achosion hyn.</p>		<p>Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i weithredu'r polisi "dim anfantais" ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau o'r farn fod y Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol ym mhob achos perthnasol lle gellid ystyried Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.</p> <p>Cynllun Llwybr Ôl-16: Cyflwynodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol adroddiad penodol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis Mehefin 2021 ar gynnydd y Cynlluniau Llwybr Ôl-16. Nodir cynnydd yn ein hadroddiad nesaf.</p>
--	--	--

Ymateb y Gwasanaeth i'r uchod:

Ansawdd asesiadau a'u diweddarau a Chynlluniau Gofal a Chymorth Rhan 6 – mae Arweinwyr Ymarfer yn atgoffa staff yn rheolaidd yn y sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd staff o'r angen i ddiweddarau'r Asesiadau Gofal a Chymorth rhan 3 ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal i sicrhau eglurder ynghylch sut fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Maent yn cael eu hatgoffa am y protocol yn ymwneud â'r amserlenni disgwylidig ar gyfer diweddarau asesiadau.

Maent yn cael eu hatgoffa hefyd am yr angen i ddiweddarau'r Cynlluniau Gofal a Chymorth Rhan 6 yn dilyn yr Adolygiadau Plant sy'n Derbyngofal, yn unol â'r Protocol rhwng y SAA a'r Gwasanaeth.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn wynebu nifer o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro a chanolbwyntir ar roi cymorth iddynt gyda baich achosion a rheoli amser i sicrhau eu bod yn clustnodi amser i ddiweddarau asesiadau a chynlluniau gofal yn unol â'r protocol cytunedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Cyflwynwyd adroddiadau ymlaen llaw ar gyfer Adolygiadau Plant sy'n Derbyngofal – mae'n gadarnhaol nodi fod Gweithwyr Cymdeithasol yn darparu adroddiadau ar gyfer y

mwyafrif o Adolygiadau sy'n golygu fod gwybodaeth gyfredol am sefyllfa'r plentyn ar gael fel rhan o'r broses er mwyn paratoi ar gyfer yr Adolygiad.

Ffocws penodol ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn gofal i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal:

Trwy gyfrwng y Cyfarfod Cynllunio Sefydlogrwydd mae'r Gwasanaeth yn gallu canolbwyntio ar gynlluniau sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal, sef naill ai bod gartref gyda'u rhieni, gyda gofalwr maeth neu drefniadau Pan Fydda i'n Barod; a defnyddio Cyfraith Breifat megis Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a Gorchmynion Trefniadau Plant sy'n dileu eu statws cyfreithiol o fod yn derbyn gofal. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'r tabl a ganlyn yn rhoi data am blant sydd wedi gadael gofal yn ystod 2021/22 ac sy'n gadael yn ystod Ch4:

Rheswm am adael gofal	Yn ystod 2020/21	Yn ystod Ch4
Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig	1	
Mabwysiadu	4	5
Pan fydda i'n barod	9	1

Cynllunio Llwybr – Mae'r Gwasanaeth wedi penodi Ymgynghorydd Personol (YP) ychwanegol i fod yn gyfaill i bobl ifanc 16 i 24 oed a'u cefnogi a'u cynorthwyo wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae'r YP yn dechrau gweithio gyda'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal cyn iddynt droi'n 16 ac maent yn gweithio ar y cyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol ac asiantaethau partner i sicrhau fod Cynllun Llwybr ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol, addysg a chyflogaeth, anghenion tai, cyllidebu a'u lles cyffredinol.

3. Adolygiadau

Mae Adolygiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau gan ddefnyddio ystod o gyfryngau rhithwir a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Er bod manteision i hyn o ran gallu parhau i gynnal cyfarfodydd a gweld plant ac oedolion allweddol ar sgrin, mae anfantais enfawr hefyd o beidio â chael sgwrs wyneb yn wyneb â phlant, ac mae Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi ailgychwyn rhai ymweliadau uniongyrchol cyn, neu'n dilyn adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

Yn ddiweddar, penodwyd Clare Owen yn Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol. Mae'r penodiad hwn wedi cynyddu capasiti'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Rydym yn croesawu Claire i'r tîm: daw â chyfoeth o brofiad a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn.

Rhwng 1 Medi 2021 ac 14 Ionawr 2022, cynhaliwyd 34 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal: gyda 94% (32) yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen. Rydym yn deall y rhesymau pam na chynhaliwyd y ddau adolygiad arall yn unol â'r amserlen – mater yn ymwneud â phroses a newid heb ei gynllunio i argaeledd unigolyn.

Mae'n arfer da i'r Swyddog Adolygu Annibynnol rannu'r cofnod o benderfyniadau allweddol gyda'r Arweinydd Ymarfer cyn pen 5 diwrnod gwaith o gynnal yr adolygiad a chwblhau cofnod llawn y cyfarfod (wedi'i baratoi'n unol â Rheoliad 44), cyn pen 20 diwrnod gwaith i ddyddiad yr adolygiad. O sampl ar hap o 68 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, llwyddom i gyrraedd y targed hwn mewn 56 achos (82%). Mae hwn yn ostyngiad o gymharu â'r ffigwr o 98% a nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf (dim ond un oedd yn hwyr). Rydym yn deall y rhesymau pam eu bod tu allan i'r amserlen e.e. roedd angen rhagor o wybodaeth, anawsterau wrth gael mynediad at wybodaeth ar ffeiliau electronig oherwydd problemau gyda'r system TG genedlaethol. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud ymrwymiad clir i wella perfformiad yn y cyswllt hwn.

5. Gwahoddiad i gyfarfodydd chwarterol

Mae trefniadau wedi bod ar waith ers peth amser ar gyfer cynnal cyfarfodydd chwarterol rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r Rheolwr Gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd yn adeiladol ac yn ffordd o gydweithio i wella ymarfer.

6. Cysondeb Gweithwyr Cymdeithasol

Mae cysondeb Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn hanfodol er mwyn ffurfio perthynas o ymddiriedaeth. Mae'n darparu dealltwriaeth drylwyr hefyd o faterion ac mae'n osgoi oedi ac achosion yn llithro.

Rydym ar ddeall fod y gweithlu wedi bod yn sefydlog ar y cyfan. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y gweithlu fydd yn anochel yn effeithio ar blentyn neu berson ifanc. Roedd tystiolaeth gynyddol o hyn yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, sef pan fydd Gweithiwr Cymdeithasol plentyn yn newid, bydd yr achos yn parhau i fod dan ofal yr un grŵp ymarfer. Yn yr un modd, dylai'r un Arweinydd Ymarfer barhau i oruchwylio'r gwaith.

7. Ymweliadau Statudol

Gyda chyfyngiadau'n ymwneud â Covid-19 yn llacio, mae gwaith uniongyrchol/ymweliadau wedi ailgychwyn.

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi bod canran yr Ymweliadau Statudol a gynhaliwyd gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yn Chwarter 3 yn 92.73% ym mis Gorffennaf, 85.00% ym mis Awst a 79.05% ym mis Medi. Mae'n bwysig nad yw'r gostyngiad misol hwn yn parhau.

8. Materion allweddol o'r Adroddiad hwn.

Dyma'r materion allweddol sy'n codi o'r adroddiad hwn ac, er gwaethaf y gwelliannau, maent union yr un fath â'r materion allweddol yn ein hadroddiad diwethaf:

(a) Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'n fawr y cynnydd yn nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd cyn cynnal Adolygiadau Plant sy'n Derbyngofal;

(b) Mae angen i'r ymdrechion i sicrhau bod angen i bob plentyn dderbyn asesiad cyfredol barhau; a bod ansawdd yr asesiadau'n cael ei oruchwylio gan yr Arweinydd Ymarfer perthnasol;

(c) Mae angen diweddarau Cynlluniau Gofal a Chymorth Rhan 6 yn fwy rheolaidd yn dilyn adolygiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal, gan adlewyrchu trafodaethau ac argymhellion;

(d) Bod y Panel yn gwahodd y Rheolwr Gwasanaeth i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Swyddogion Adolygu Annibynnol iddynt.

Ymateb i'r adroddiad uchod gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:

Cysondeb Gweithwyr Cymdeithasol – fel Gwasanaeth rydym bob amser yn ceisio sicrhau fod gan blant sy'n derbyn gofal Weithiwr Cymdeithasol cyson y gallent ymddiried ynddynt a datblygu perthynas waith gadarnhaol â nhw. Mae achlysuron ac amgylchiadau lle bydd y Gweithwyr Cymdeithasol yn newid ac mae'r adroddiad hwn eisoes wedi nodi rhesymau o'r fath sy'n golygu bod gweithiwr cymdeithasol gwahanol yn cael ei neilltuo i blentyn sy'n derbyn gofal. Yn ystod 2021/22, dim ond 8% oedd trosiant staff y gwasanaeth, o gymharu â tharged corfforaethol o 10%.

Ymweliadau statudol Plant sy'n Derbyngofal yn unol â'r amserlen - Allan o 285 ymweliad a gynhaliwyd gan Weithwyr Cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn i gartrefi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, cynhaliwyd 251 (88%) yn unol â'r amserlen. Ar gyfartaledd, roedd y 34 ymweliad hwyr 1 i 2 ddiwrnod yn hwyr ar gyfartaledd a'r prif resymau am hyn yw salwch staff a phwysau gwaith.

Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal yn awr gydag Arweinwyr Ymarfer lle rydym yn monitro perfformiad yr ymweliadau Plant sy'n Derbyngofal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlenni statudol.

Mae'n werth nodi bod Gweithwyr Cymdeithasol wedi parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol trwy gydol cyfnod y pandemig er gwaethaf yr holl heriau a wynebwyd ganddynt.

Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2018). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyngofal a Plant sy'n cael eu Lletya) [ar-lein]. Ar gael o:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-y-marfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf>. Dyddiad Cyrchu: 23 Ionawr 2020.